

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Cyfnod Adrodd 01.08.2019 – 31.07.2020

CYNNWYS	TUDALEN
1.0 Cyflwyniad a Throsolwg	2
2.0 Datblygu'r Gymraeg a Dwyieithrwydd a Monitro Cydymffurfiad	2
3.0 Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog	3
4.0 Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaeth	4
4.1 Cyfieithu	4
4.2 Cwynion	4
4.3 Gohebiaeth a Galwadau Ffôn	4
4.4 Cyfarfodydd	5
4.5 Y Cyfryngau Cymdeithasol	5
4.6 Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg	5
5.0 Cydymffurfio â Safonau Llunio Polisiau	5
6.0 Cydymffurfio â Safonau Gweithredol	6
6.1 Hyfforddiant Staff	6
6.2 Sgiliau Cymraeg Staff	6
6.3 Swyddi Newydd a Swyddi Gwag	7
7.0 Casgliad	7
8.0 Gwybodaeth Bellach / Manylion Cyswllt	8

1.0 Cyflwyniad a Throsolwg

Ers Ebrill 2018, bu'n ofynnol yn gyfreithiol i Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales (AOC|ALW) gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y'u sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Safonau'r Gymraeg yn amlinellu sut dylai'r Iaith Gymraeg gael ei defnyddio a'i thrin mewn sefyllfaoedd amrywiol, ac maent yn sefydlu hawliau cyfartal i siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg, ar sail dwy egwyddor:

- 'Yng Nghymru, ni ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg'
- 'Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny'

Ein nod yw rhagori ar ofynion y safonau lle bynnag y bo'n bosibl a bod yn ddarparwr rhagorol gwasanaethau a chyflenwi yn Gymraeg. Ochr yn ochr â'r nod hwn, mae ein Cynllun Strategol yn amlinellu ein gweledigaeth i 'ddarparu mynediad cydradd i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' ynghyd â'n nod o 'gyflwyno rhaglenni dysgu o'r safon uchaf gan flaenoriaethu'r rhai hynny sydd anoddaf eu cyrraedd a darparu mynediad cyfartal i ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.'

Dyma drydydd adroddiad blynyddol AOC|ALW ar ein cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg sydd wedi'u rhestru yn ein Hysbysiad Cydymffurfio Statudol. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Awst 2019 a 31 Gorffennaf 2020. Mae rhan o'r cyfnod adrodd hwn yn cyd-daro â phandemig Covid-19, sydd wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad a'r gwasanaethau a ddarparwn. Er yr effaith anochel ar weithgarwch datblygu, mae ein hymrwymiad i egwyddorion Safonau'r Gymraeg wedi parhau, ac rydym wedi ceisio parhau i gydymffurfio â'r Safonau yn ystod y cyfnod hwn.

2.0 Datblygu'r Gymraeg a Dwyieithrwydd a Monitro Cydymffurfiad

Er mwyn cynnwys gweithgareddau yn y brif ffrwd, caiff materion allweddol yn ymwneud â'r Gymraeg a dwyieithrwydd eu trafod yng nghyfarfodydd rheolaidd Tîm Rheoli'r Coleg a chaiff syniadau eu datblygu yno.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd pob agwedd ar gynllunio a datblygu'r Gymraeg a dwyieithrwydd, gan gynnwys cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, eu cefnogi hefyd gan Grŵp y Gymraeg a Dwyieithrwydd. Ac yntau'n adrodd i Bwyllgor Profiad y Dysgwr y sefydliad, diben y grŵp hwn oedd cydlynu a monitro'r amrywiaeth eang o weithgareddau y mae eu hangen i gyflawni nodau strategol y sefydliad a bodloni gofynion statudol.

Mae dull gwahanol wedi'i sefydlu ar gyfer 2020/21, gyda gwaith Grŵp y Gymraeg a Dwyieithrwydd yn cael ei wneud gan dimau gweithredol, gyda chefnogaeth grwpiau gorchwyl a gorffen ychwanegol fel bo'r gofyn. Bydd y dull hwn yn sicrhau mwy o effeithlonrwydd ac yn osgoi dyblygu gwaith.

Bydd ein Pwyllgor Profiad y Dysgwr a'r Cyngor yn cael adroddiadau ar gynnydd ynghylch pob agwedd ar y Gymraeg, gan gynnwys Safonau'r Gymraeg, a byddant yn monitro ac yn craffu ar yr agweddau hynny.

Mae ymrwymiad clir i'r Gymraeg ac eiriolaeth dros y Gymraeg ymhlith yr Uwch Dîm Arwain a Chyngor AOC | ALW (ein corff llywodraethu), fel y mae ein gofyniad sefydliadol fod holl gyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog yn ei ddangos.

3.0 Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog

Un o'n heriau allweddol yw cynyddu lefelau ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn unol â'n nodau strategol, ac ar gyfer 2019/20, gosododd y sefydliad darged uchelgeisiol sef cyflwyno 5% o'n darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd ein Cynllun Gweithredu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog yn sylfaen i'r targed hwn ac mae'r cynllun yn cyd-fynd â'r 'Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau' cenedlaethol, sy'n cefnogi 'Tuag at Cymraeg 2050.'

Oherwydd amrywiol heriau, nid lleiaf effaith Covid-19, nid oeddem wedi gallu cyrraedd y targed hwn. Hefyd, fe wnaeth recriwtio tiwtoriaid dwyieithog barhau'n her i'r sefydliad yn ystod y cyfnod adrodd. Ysgogodd hyn adolygiad o strwythur staffio'r sefydliad, gan arwain at ailddyrranu adnoddau o swyddi rheoli/cymorth i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ar ffurf oriau tiwtor pwrpasol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/2020, cofnodwyd llai nag 1% o'n holl oriau cyflwyno yn y categorïau codio cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, h.y. C1 neu B1. Fodd bynnag, cyflwynwyd 12% o'n darpariaeth gydag ychydig o Gymraeg (categori B3), sy'n adlewyrchiad cadarnhaol o'r hyder cynyddol ymhlith staff cyflwyno i ddefnyddio rhywfaint o Gymraeg mewn dysgu ac addysgu.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2019-20, nododd 15% o ddysgwyr eu bod naill ai'n siarad Cymraeg yn rhugl neu'n siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl.

Ymhlith ein dysgwyr Cymraeg eu hiaith, roedd y ganran cwblhau'n llwyddiannus yn uchel, sef 91%, sy'n uwch na chymharydd y sefydliad, sef 86%.

Mae gan bob maes cyflwyno dargedau ar gyfer darpariaeth cwricwlwm cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, sy'n cyd-fynd â Chynllun cyffredinol y Cwricwlwm a'r Cynllun Gweithredu ar Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog. Mae camau gweithredu i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a mwy o gyfleoedd i'n dysgwyr ddefnyddio a datblygu'u sgiliau Cymraeg wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Datblygu Ansawdd.

Rydym yn parhau i benodi staff cyflwyno sy'n gallu cyflwyno cyrsiau yn ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Mae staff cyflwyno yn parhau i ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Gwreiddio Dwyieithrwydd, a ddatblygwyd i gynorthwyo â gwreiddio dwyieithrwydd a'r dimensiwn Cymraeg yn y cwricwlwm.

Mae AOC|ALW yn cydweithredu â thri Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru ar brosiect wedi'i ariannu drwy'r Gronfa Datblygu Proffesiynol. Nod y prosiect yw cynorthwyo ymarferwyr i wreiddio'r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn rhaglenni dysgu ar-lein. Wrth i'r sector addysg symud tuag at fodel cyflwyno ar ffurf dysgu cyfunol, mae'n hanfodol bod gan y Gymraeg a

diwylliant Cymru le blaenllaw ar blatfformau dysgu ac addysgu ar-lein a bod gan ymarferwyr y sgiliau sy'n ofynnol i gyflawni hyn.

4.0 Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaeth

4.1 Cyfieithu

Mae cyfieithu effeithlon ac effeithiol wrth wraidd ansawdd ein gohebiaeth fewnol ac allanol ac, ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio cyfuniad o wasanaethau cyfieithu mewnol ac allanol. Mae Covid-19 wedi dwysáu'r angen am ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau allanol gyda'n cyfathrebiadau; er yr heriau hyn, rydym wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau bod yr holl negeseuon yn parhau i gael eu hanfon yn ddwyieithog.

Neilltuom gymaint o ddogfennau strategol a chyhoeddus â phosibl i'n cyfieithydd mewnol er mwyn datblygu llais Cymraeg cyson ac rydym wedi creu rhestr sefydliadol, ddwyieithog o dermau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gyson.

4.2 Cwynion

Ni chafwyd cwynion ynghylch cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ond mae'r sefydliad wedi ymateb i ymholiad ynghylch chwilio am ein gwefan trwy Google.

Ni chafwyd unrhyw gwynion ysgrifenedig am ein cydymffurfiad â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, polisi na'r safonau gweithredol a osodwyd.

4.3 Gohebiaeth a Galwadau Ffôn

Hyd yn hyn, cofnodwyd dewis iaith ar gyfer cysylltu trwy ddolen yn llofnodion e-bost yr holl staff. Fodd bynnag, mae system newydd o reoli cysylltiadau wedi'i datblygu, a fydd yn disodli'r dolenni e-bost yn ystod 2021. Bydd y system newydd yn galluogi unigolion i gofnodi'u dewis iaith ar gyfer gohebiaeth mewn lleoliad mwy canolog.

Mae'r holl ddogfennau a ffurflenni i ddysgwyr a'r cyhoedd yn parhau i gael eu llunio'n ddwyieithog lle y bo'n bosibl, neu eu llunio yn y Gymraeg a'r Saesneg os nad yw fersiwn dwyieithog yn briodol.

Mae swydd y Derbynnnydd Cenedlaethol Dwyieithog yn parhau'n nodwedd allweddol yn ein gwasanaeth ffôn dwyieithog cenedlaethol sy'n 'gynnig rhagweithiol', gyda phob galwr yn cael ei gyfarch yn ddwyieithog ac yn cael cais i ddal y llinell i siarad yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Hefyd, y Derbynnnydd Cenedlaethol Dwyieithog sy'n gweinyddu'r gwasanaeth cyfieithu, gan gynnig mynediad at gyfieithu, cyngor a gwybodaeth, ac mae wedi datblygu perthynas waith ragorol gyda staff ym mhob un o'r swyddfeydd rhanbarthol.

Cyflwynodd Covid-19 a'r gofyniad i staff weithio gartref heriau i'n gwasanaeth derbynfa dwyieithog cenedlaethol; fodd bynnag, daethpwyd o hyd i ateb fel y gall y gwasanaeth barhau wrth i staff weithio o bell.

4.4 Cyfarfodydd

Yn sgil symud i gyfarfodydd ar-lein, mae cyfieithu ar y pryd yn ystod ein cyfarfodydd Cyngor wedi bod yn her i ni o ran y swyddogaethau sydd ar gael ar ein dewis blatfform, Microsoft Teams, ond mae ateb wedi'i sefydlu a fydd yn ein galluogi i barhau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu priodol. Hefyd, darperir gwasanaeth cyfieithu yn ystod cyfarfodydd ein Fforwm Rhanbarthol a chaiff mynychwyr eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg, os dymunant wneud.

Rydym yn parhau i ddefnyddio cymaint o Gymraeg â phosibl yn ystod cyfarfodydd mewnol. Cynhelir llawer o gyfarfodydd yn Gymraeg neu yn ddwyieithog yn naturiol, heb yr angen am wasanaethau cyfieithu, yn enwedig yn ein swyddfa ym Mangor, lle mae mwyafrif y staff yn siarad Cymraeg.

4.5 Y Cyfryngau Cymdeithasol

Rydym wedi parhau i fonitro ein cyfryngau cymdeithasol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio, ac rydym wedi ystyried darllenadwyedd, cywair a naws er mwyn datblygu ansawdd holl hysbysebion ein cyrsiau yn ystod 2019/2020. Mae trefniadau ychwanegol wedi'u sefydlu i wirio cywirdeb cyfieithiadau o ran ein negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol a'n gwefan.

4.6 Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg

Rydym yn parhau i hyrwyddo'n gwasanaethau Cymraeg trwy neges ein 'cynnig rhagweithiol' mewn gohebiaeth a marchnata.

Fe wnaeth Covid-19 darfu ar ein cynlluniau i fynd i'r Eisteddfod eleni, ond rydym yn bwriadu mynd i'r Eisteddfod nesaf i hyrwyddo'r sefydliad a'r gwasanaethau Cymraeg a gynigiwn.

Mae ein prosesau a'n deunyddiau sefydlu i ddysgwyr yn cynnwys hyrwyddo'n gwasanaethau Cymraeg. Rydym yn cynnwys opsiynau ar gyfer gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog yn ein ffurflenni cais ac ymrestru i ddysgwyr ac mae gennym adran ar hawliau dysgwyr i wasanaethau cyfrwng Cymraeg yn ein llawlyfr i ddysgwyr.

Fel rhan o'n trosglwyddo i gyflenwi cyrsiau ar-lein, datblygwyd templed Cymraeg ar gyfer pob cwrs ar ein platfform Moodle, i alluogi dysgwyr i gael at adnoddau dysgu ac addysgu yn Gymraeg.

5.0 Cydymffurfio â Safonau Lluo Polisiau

Aseswyd yr holl bolisiau sydd wedi'u datblygu neu'u diweddarau yn ystod y cyfnod adrodd o ran asesu'r effaith ar gydraddoldeb, ac mae hyn yn cynnwys asesu'r effaith ar y Gymraeg.

6.0 Cydymffurfio â Safonau Gweithredol

6.1 Hyfforddiant Staff

Darparwyd gwersi Cymraeg dwys drwy'r cynllun Cymraeg Gwaith i staff yn ystod y rhan helaeth o flwyddyn academaidd 2019-20, ond fe wnaeth Covid-19 a gohirio addysgu wyneb yn wyneb ym mis Mawrth 2020 darfu ar y rhain. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio i sefydlu opsiynau dysgu o bell yn lle'r uchod.

Mae hyfforddiant sefydlu'n cael ei ddarparu'n unigol ac mae pob dogfen sefydliadol yn ddwyieithog. Mae'r Swyddog Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am sefydlu yn cynnig arweiniad a chymorth unigol i weithwyr newydd Cymraeg eu hiaith yn Gymraeg. Ni ddarparwyd ac ni ofynnwyd yn fewnol am unrhyw gyrsiau hyfforddiant yn Gymraeg ar feysydd eraill sydd wedi'u rhestru yn Safon 135 (recriwtio a chyfweld; rheoli perfformiad; cwynion a gweithdrefnau disgyblu; delio â'r cyhoedd, ac iechyd a diogelwch). Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd llawer iawn o wybodaeth i staff am faterion lechyd a Diogelwch ar ffurf nodiadau briffio a dogfennau arweiniad; darparwyd y rhain oll yn ddwyieithog. Hefyd, fe wnaeth staff Cymraeg eu hiaith gymryd rhan mewn cwrs yn Gymraeg ar ddefnyddio meddalwedd Cysill a Cysgair.

Fel yr amlinellwyd uchod, rydym wedi trefnu cyrsiau Iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith i staff sy'n dymuno dechrau gwersi Cymraeg ac i'r rheiny sy'n dymuno datblygu'u Cymraeg. Yn ystod 2019/20, mynychodd 17 aelod staff ein cyrsiau Sylfaen mewnol a gyflwynwyd trwy Gymraeg Gwaith. Mynychodd 8 aelod staff y cwrs lefel Mynediad. Mae ein Prif Weithredwr wedi bwrw ymlaen â dysgu Cymraeg ar lefel Canolradd yn ystod 2019/20.

Hefyd, rydym wedi parhau i ddarparu cyrsiau ymwybyddiaeth y Gymraeg, sy'n orfodol i'r holl staff.

6.2 Sgiliau Cymraeg Staff

Mae casglu gwybodaeth gan ein tiwtoriaid ar yr un lefel â staff cymorth y swyddfa wedi parhau'n her, ond mae rhoi cyfeiriad e-bost y sefydliad i bob tiwtor wedi cynorthwyo â'r broses. Yn ôl y cofnodion a gadwyd ar 31 Gorffennaf 2020, cofnodwyd bod gan staff y sgiliau Cymraeg a ddangosir yn y tabl isod.

Lefel	Dealltwriaeth	Siarad	Darllen	Ysgrifennu
0 Dim Sgiliau	33	23	43	56
1 Mynediad	65	69	48	46
2 Sylfaen	16	27	22	22
3 Canolradd	11	12	14	9
4 Uwch	10	5	8	7
5 Hyfedredd	10	9	10	5

Rydym yn cydnabod nad yw'r holl staff wedi cwblhau'r arolwg a byddwn yn gweithio i wella'n systemau ar gyfer sicrhau'r wybodaeth hon yn ystod 2020/21.

6.3 Swyddi newydd a swyddi gwag

Roedd 12 swydd newydd a swydd wag yn ystod y cyfnod adrodd a chawsant eu hasesu a'u categoreiddio fel a ganlyn:

Dyddiad	Swydd	Gofynion y Gymraeg	Lefel
Awst 2019	Rheolwr AD	Dymunol	5
Awst 2019	Gweinyddwr Rhanbarthol (De-ddwyrain)	Dymunol	3
Hydref 2019	Gweinyddwr Rhanbarthol (De-ddwyrain)	Dymunol	3
Tachwedd 2019	Rheolwr Datblygu Busnes	Dymunol	3
Chwefror 2020	Rheolwr Rhanbarthol (Canolbarth a De-orllewin)	Dymunol	5
Chwefror 2020	Swyddog Cyflwyno'r Cwricwlwm (Prosiect SDF, y Gogledd)	Dymunol	3
Chwefror 2020	Cynorthwydd Sicrhau Ansawdd a Chymwysterau	Dymunol	3
Mawrth 2020	Aseswr SSIE REACH x 3 (Gogledd, De-ddwyrain, Canolbarth a De-orllewin)	Dymunol	3
Mai 2020	Swyddog Cyflwyno'r Cwricwlwm (Prosiect SDF, Canolbarth a De-orllewin)	Dymunol	3
Mehefin 2020	Swyddog Cyflwyno'r Cwricwlwm (Cyflenwi dros gyfnod mamolaeth, y Gogledd)	Dymunol	3

7.0 Casgliad

Dyma fu ail flwyddyn lawn gorfodi Safonau'r Gymraeg a bu'r ffocws ar wreiddio cydymffurfiad wrth gyflwyno gwasanaethau ac yn ein harferion gweithredol o ddydd i ddydd.

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad a'r gwasanaethau a ddarperir yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Er yr effaith anochel ar weithgarwch datblygu, mae

ein hymrwymiad i egwyddorion Safonau'r Gymraeg wedi parhau, ac rydym wedi ymdrechu i barhau i gydymffurfio â'r Safonau yn ystod y cyfnod hwn.

Rydym wedi parhau i ehangu ein ffocws fel ei fod yn cynnwys meysydd y tu hwnt i'r safonau sy'n cysylltu â gyrwyr sefydliadol eraill ynghylch y Gymraeg, er enghraifft dangosyddion ansawdd Estyn ar gyfer y Gymraeg a Chymraeg 2050, trwy ddatblygu ymhellach ein cwricwlwm cyfrwng Cymraeg a pharhau i wreiddio'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig mewn dysgu ac addysgu.

Ar y cyfan, mae ymateb y staff i Safonau'r Gymraeg yn parhau'n gadarnhaol iawn ac rydym wedi gwneud y mwyaf o'r cyfle i weithio tuag at fod yn sefydliad cwbl ddwyieithog.

8.0 Gwybodaeth Bellach / Manylion Cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr adroddiad hwn neu unrhyw agwedd ar gydymffurfiad Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales â Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â Cath Hicks, Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau: cath.hicks@adultlearning.wales